

Y nefoedd: dal yn agored

“Wedi iddo lefaru’r geiriau hyn, cododd Iesu ei lygaid i’r nef a dywedodd: ‘O Dad, y mae’r awr wedi dod.’” (adn. 1)

Beth am ddarllen Ioan 17:1–19 ac yna myfyrio

Wedi edrych yn fyr ar sylwedd araith Steffan, yr araith a arweiniodd at yr erledigaeth fawr, yr ydym yn awr am ddychwelyd at yr Eglwys yn Antiochia a’r gwirionedd ei bod wedi ei sylfaenu gan wŷr a gwragedd oedd wedi dioddef oherwydd eu ffydd, gan wŷr a gwragedd oedd nid yn unig yn dioddef erledigaeth, ond yn defnyddio yr erledigaeth. Rwyf am eich atgoffa o’r hyn mae Actau 11:19 yn ei ddweud: “Yn awr yr oedd y rhai a wasgarwyd oherwydd yr erlid a gododd o achos Steffan wedi teithio cyn belled â Phenice a Cyprus ac Antiochia.” Clywais ymadrodd pan ymhlith llwyth y Tamiliaid yn Ne India: “Mae’r un sydd wedi ei eni yn y tân yn ddiogel o beidio gwywo yn yr haul.” Ganwyd yr Eglwys yn Antiochia mewn tân, y tân a amgylchynodd y Cristnogion yn dilyn erledigaeth a dioddefaint Steffan. Yr oedd hyn yn sicrhau na fyddai yn gwywo wyneb yn wyneb â gwrthwynebiad. Yr oedd arwydd y groes ar sylfeini yr Eglwys yma ac felly y mae bywyd yr atgyfodiad yn llifo drwyddi. Os nad yw ein ffydd wedi costio, ni fydd yn cyfrannu ychwaith.

Er bod erledigaeth yn sylweddol mewn rhannau helaeth o’r byd, eto nid yw yr Eglwys yma yn cael ei gyrru gan erledigaeth allanol amlwg. Eto, yr ydym yn cael fod pobl yn mynnu ein bod yn amherthnasol ac nad oes lle i’r Eglwys yn y byd modern. Mae stormydd yn curo arnom o bob cyfeiriad – o’r gogledd, de, dwyrain a’r gorllewin ac wrth gwrs o’r byd tanddaearol yna sydd mor amlwg yn yr Ysgrifur. Dim ond y nefoedd sydd yn agored i ni. A yw yn bosibl i ni gael ein hysbrydoli yn ddigonol o’r nefoedd er mwyn cyflawni yr hyn yr oedd y dynion a’r gwragedd a sylfaenodd Eglwys Antiochia yn medru ei gyflawni, a gwneud hynny nid trwy dioddef yr erledigaeth ond ei ddefnyddio? Rydym yn byw mewn dyddiau sydd yn rhoi i ni gyfleon ardderchog i ddangos bod ein ffydd wedi ei sylfaenu ar y graig. Rhaid i’r Eglwys symud ymlaen, nid yn ofnus ond mewn buddugoliaeth.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Heb.11:32–40; 1 Ioan 2:13–29; 5:1–5; Dat.12:7–11

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pwy yw y rhai sydd yn gorchfygu?
2. Sut yr ydym ni i orchfygu?

Gweddi

O Ysbryd Glân, yr wyf yn gofyn i ti i fyw yn ofn gyda’r fath nerth a bywyd fel y byddaf yn medru symud ymlaen i’r bywyd sydd gan y Tad ar fy nghyfer, nid mewn ofn ond mewn buddugoliaeth. Caniatâ hyn yn enw Iesu. Amen.